# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg o HYDREF 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. Margaret Thomas
Cyng. Alwyn Parry
Cyng. J. Huw Owen

**HEFYD YN BRESENNOL :**
**Cynghorydd Sir :** Dylan W. Rees

**Swyddog Gweinyddol :** L. Powell
**Heddlu :** 02593 Williams
04515 Bradshaw

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis yn croesawu'r Aelodau a'r Heddlu i'r Cyfarfod Llawn*

**25/116** **Ymddiheuriadau :** Cyng. Non W. Parry, Cyng. Henry D. Jones, Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. Terry Jones
**Cynghorydd Sir :** Cyng. Geraint Bebb

***Cyhoeddodd y Cadeirydd ar ddechrau'r Cyfarfod, oherwydd diffyg presenoldeb Aelodau, nad oedd Quorum, ac felly ni allai'r Cyfarfod gael ei gynnal yn ei gyfanrwydd.***

***Cyhoeddodd y Cadeirydd hefyd fod dau Aelod wedi ymddiswyddo, sef Gwenan Ll. Evans a John Lee.***

**25/117 Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/118 Heddlu Gogledd Cymru :** PSCO Alison Williams yn cyflwyno ei chydweithiwr, PSCO Charlotte Bradshaw, sydd wedi ymuno a Thîm Llangefni yn ddiweddar.
PCSO Williams yn adrodd fod cyfnod yr Haf wedi bod yn weddol ddistaw ar y cyfan, ond yn ystod yr wythnosau diwethaf bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn o siopau wedi bod yn mynd ymlaen yn y dref. Diweddariad gan PSCO Williams ar y canlynol :

- Gwaith ar y Prosiect a gychwynnwyd nôl yn Mis Hydref flwyddyn ddiwethaf yn symud ymlaen yn araf;
- Ffurfio Pwyllgor i wneud cais am gyllideb a thrafod gyda Mudiadau;
- Edrych ar eiddo addas ar gyfer Hwb Ieuenctid ;
- Gobeithio cael yr Hwb erbyn Haf nesaf.
- Niferoedd y Clwb Ieuenctid yn lleihau yng Ngholeg Pencraig oherwydd ei fod allan o'r dref;

Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw fod y Tirmon wedi clirio poteli gwydr wedi malu ar Safle Lon Las a'r Parc Sglefrio.
Cyng. J. Egryn Lewis yn dwyn sylw fod graffiti ar un o'r Cysgodfanau Bus. PSCO Williams yn ymateb ei fod yn anodd gosod gwerthoedd cymunedol i bobl ifanc y dyddiau yma.
*Cadeirydd yn diolch i'r Heddlu am eu mewnbwn a gadawsant y Cyfarfod.*

**25/119 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 08.09.2025 :**
Cadeirydd yn adrodd oherwydd bod dim Quorum ni allwyd trafod yr Eitem yma.

**CYNG. J. EGRYN LEWIS**
**CADEIRYDD**

*Nodiadau ar drafodaeth agored yn dilyn o'r uchod ar gael yn y Swyddfa*